

Sylfaen Uned 6 y gogledd - Adolygu ac Ymestyn

Nod: Adolygu ac ymestyn / *Revision and extension*

Geirfa

amserlen(ni)	timetable(s)	pabell (pebyll)	tent(s)
crefft(au)	craft(s)	sgwrs (sgyrsiau)	talk(s), chat(s)

adloniant	entertainment	cymeriad(au)	character(s)
arfordir(oedd)	coast(s)	dyddiadur(on)	diary (diaries)
bwthyn (bythynnod)	cottages(s)	llwybr(au)	path(s)

amyneddgar	patient	cerddorol	musical
blasus	tasty	gwerin	folk

addurno	to decorate	cymdeithasu	to socialise
plesio	to please, satisfy	dŵad â	to bring

bob yn ail	every other, alternate
y llall (y lleill)	the other(s)

Geiriau pwysig i mi

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Gêm o gardiau

				
A	Be sy'n well gen ti - bath neu gawod?	Lle gest ti dy fagu?	Gest ti dy eni yn yr haf?	Be wnest ti brynu ddiwetha ar y we?
2	Wyt ti'n nabod rhywun sy'n gyrru car trydan?	Wyt ti'n berson amyneddgar?	Taset ti'n cael mynd am noson i ddinas, lle faset ti'n mynd?	Be oeddet ti'n hoffi wneud mewn gwersi chwaraeon yn yr ysgol?
3	Wyt ti'n mwynhau cymdeithasu?	Lle gaeth dy ffrind gorau di ei fagu/magu?	Pa ffilm faset ti'n hoffi gweld yn y sinema?	Taset ti'n cael cynnig malwod mewn bwyty, faset ti'n bwyta un?
4	Lle wyt ti'n siopa fel arfer?	Wyt ti'n nabod rhywun sy wedi bod yn India?	Lle gest ti dy eni?	Faint o'r gloch est ti i'r gwely neithiwr?
5	Faset ti'n hoffi gwyliau sgio neu wyliau ar lan y môr?	Lle wyt ti'n byw?	Lle faset ti'n hoffi byw, tasai gen ti lawer o arian?	Oes gen ti feic?
6	Taset ti'n prynu tŷ, lle fasai fo?	Taset ti'n cael pwdin rŵan, be faset ti'n ddewis?	Faset ti'n medru rhedeg marathon?	Wyt ti'n nabod rhywun sy'n gwneud karate/jiudo/ taekwondo?
7	Be wyt ti'n hoffi wneud yn dy amser sbâr?	Taset ti'n gweld hysbyseb am gwrs ioga am ddim, faset ti'n mynd?	I le est ti mewn awyren ddiwetha?	Faset ti'n hoffi mynd i glwb nos, nos Sadwrn nesaf?
8	Tasai gen ti fwy o amser, be faset ti'n hoffi wneud?	Be doeddet ti ddim yn hoffi wneud mewn gwersi chwaraeon yn yr ysgol?	Be faset ti'n hoffi wneud y penwythnos yma?	Be fydd yn digwydd yn y byd chwaraeon yn ystod y deuddeg mis nesaf?
9	Taset ti'n cael tocyn am ddim, faset ti'n mynd i weld Hamlet?	Wyt ti'n cadw dyddiadur?	O le wyt ti'n dŵad yn wreiddiol?	Taset ti'n ennill y loteri, be faset ti'n brynu?
10	Efo pwy faset ti'n hoffi cael pryd o fwyd? (person enwog)	Lle gaeth dy fam di ei magu?	Taset ti'n cael paned rŵan, be faset ti'n ddewis?	Wyt ti'n nabod rhywun sy'n gweithio mewn garej?
Jac	Faint o'r gloch wnest ti godi heddiw?	Wyt ti'n gweithio?	Be sy ar dy 'playlist' di?	Wyt ti'n mwynhau siopa yn y sêls?
Brenhines	Oeddet ti'n casglu rhywbeth pan oeddet ti'n blentyn?	Wyt ti'n mynd i gampfa o gwbl?	Lle wyt ti'n prynu dillad fel arfer?	Wyt ti'n nabod rhywun sy'n byw yng Nghanada?
Brenin	Lle wyt ti'n prynu bwyd fel arfer?	Wyt ti'n nabod rhywun sy'n canu mewn côr?	Wyt ti'n hoffi eira?	Be fyddi di'n wneud ar ôl y dosbarth?

Adolygu

Be ydy'r cwestiwn?

..... Mi ges i fy ngeni yn Abergele.

..... Mi ges i fy magu yn Aberystwyth.

..... Mi gaeth o ei eni yn y de.

..... Mi gaeth hi ei magu yng Nghaernarfon.

Yr amser gorffennol (*The past tense*)

Dach chi'n cofio?

Helpa!	Ymolcha!	Coginia!	Ymlacia!	Edrycha!	Siarada!
Helpwch!	Ymolchwch!	Coginiwch!	Ymlaciwch!	Edrychwch!	Siaradwch!

I wneud gorchmynion (*commands*) rhaid i chi wybod be ydy bôn y berfau (*the stem of the verbs*).

Dysgwch rŵan:

helpu	mi helpes i	coginio	mi goginies i	edrych	mi edryches i
ymolchi	mi ymolches i	ymlacio	mi ymlacies i	siarad	mi siarades i

Mi helpes i ffrind ddoe.

I helped a friend yesterday.

Mi ffonies i ffrind ddoe.

I phoned a friend yesterday.

Mi ymlacies i efo ffrind ddoe.

I relaxed with a friend yesterday.

Mi siarades i efo ffrind ddoe.

I spoke to a friend yesterday.

Mi goginies i ddoe.

I cooked yesterday.

Mi weithies i ddoe.

I worked yesterday.

Mi ddarllenes i ddoe.

I read yesterday.

Mi weles i ffilm ddoe.

I saw a film yesterday.

Mi fwytes i siocled ddoe.

Mi fwytes i sgloodion ddoe.

Mi fwytes i salad ddoe.

Mi fwytes i gaws ddoe.

I ate chocolate yesterday.

I ate chips yesterday.

I ate salad yesterday.

I ate cheese yesterday.

Mi redes i adre neithiwr.

Mi yfes i win neithiwr.

Mi weles i ddrama neithiwr.

Mi wrandawes i ar y radio neithiwr.

Mi arhoses i yn y tŷ neithiwr.

I ran home last night.

I drank wine last night.

I saw a play last night.

I listened to the radio last night.

I stayed in the house last night.

Fwytest ti siocled ddoe?

Ddarllenest ti lyfr ddoe?

Welest ti ffrind ddoe?

Yfest ti goffi ddoe?

Did you eat chocolate yesterday?

Did you read a book yesterday?

Did you see a friend yesterday?

Did you drink coffee yesterday?

Do ✓

Naddo ✗

Gêm



DECHRAU	Goddest ti'n gynnar ddoe?	Brynest ti rywbeth ddoe?	Yfest ti goffi ddoe?
Fwytest ti ffrwythau ddoe?	Edrychest ti ar y teledu ddoe?	Wrandawest ti ar y radio ddoe?	Yrrest ti ddoe?
Ffoniest ti rywun ddoe?	Welest ti ffrind ddoe?	Gest ti ebost ddoe?	Gest ti bost ddoe?
Ddarllenest ti bapur newydd ddoe?	Est ti allan neithiwr?	Est ti am dro ddoe?	Siaradest ti Gymraeg ddoe?
Welest ti ffrindiau ddoe?	Est ti i'r sinema mis diwetha?	Est ti i'r gampfa mis diwetha?	YN ÔL I'R DECHRAU

Edrychoch chi ar y teledu neithiwr?

Arhosoch chi yn y tŷ neithiwr?

Yfoch chi gwrw neithiwr?

Brynoch chi rywbeth neithiwr?

Did you watch television last night?

Did you stay in the house last night?

Did you drink beer last night?

Did you buy something last night?

Do ✓

Naddo ✗

Gêm - Llongau rhyfel (*Battleships*)

aros yn y tŷ	codi'n gynnar	aros tan y diwedd	yfed y llefrith
gyrru i'r sinema	gweld y rhaglen	mynd i'r gwely'n hwyr	gwneud y gwaith cartref
prynu rhywbeth	ffonio ffrind	edrych ar y teledu	darllen y papur

Mi edrychodd Sam ar Pobol y Cwm ddoe.

Mi brynodd o fara ddoe.

Mi fwytodd hi frechdanau ddoe.

Mi ddarllenodd y plant lyfr ddoe.

Sam looked at Pobol y Cwm yesterday.

He bought bread yesterday.

She ate sandwiches yesterday.

The children read a book yesterday.

Be wnaeth Sam ddoe?

Partner A

8am	codi
9am	
10:15am	chwarae ar yr Xbox
11:15am	
1:30pm	cerdded i'r siop i brynu cinio
2:30pm	
5pm	siarad efo ffrind ar y ffôn
10pm	

Partner B

8am	
9am	bwyta brecwast o flaen y teledu
10:15am	
11:15am	edrych ar ffilm newydd
1:30pm	
2:30pm	yfed coffi a bwyta cacen
5pm	
10pm	gwrando ar gerddoriaeth

Ni a Nhw



Mi edrychon ni ar Netflix neithiwr.

We looked at Netflix last night.

Mi wrandawon ni ar Spotify neithiwr.

We listened to Spotify last night.

Mi arhoson ni yn y tŷ neithiwr.

We stayed in the house last night.

Mi chwaraeon ni Monopoly neithiwr.

We played Monopoly last night.

Mi edrychon nhw ar Netflix neithiwr.

They looked at Netflix last night.

Mi wrandawon nhw ar Spotify neithiwr.

They listened to Spotify last night.

Mi arhoson nhw yn y tŷ neithiwr.

They stayed in the house last night.

Mi chwaraeon nhw Monopoly neithiwr.

They played Monopoly last night.

1 - i	golchi'r car	darllen stori
2 - ti	ffonio ffrind	smwddio
3 - fo	cerdded i'r siop	golchi dillad
4 - ni	chwarae pêl-droed	chwarae rygbi
5 - chi	aros yn y fflat	gwrando ar Spotify
6 - nhw	edrych ar Netflix	edrych ar ffilm

Ynganu

Darllenwch y darn yma i'ch partner.

Merched – Llinos Llywarch. Dynion – Llion Llywarch.

Helô, Llinos Llywarch/Llion Llywarch dw i. Dw i'n gweithio yn nhafarn y Llew Llwyd. Cogydd dw i. Mi ddysges i sut i goginio yn y coleg yn Llandrindod, ac wedyn yn Llundain mewn gwesty mawr. Mi ges i fy ngeni a fy magu yma yn Llandudno. Roeddwn i'n arfer gweithio mewn caffi yn Llangrannog ond mi benderfynes i symud adre eto.

Mae polisi arbennig yn y Llew Llwyd – rhaid i bawb sy'n gweithio yma siarad Cymraeg. Mae rhai o'r staff wedi dysgu yn y coleg. Dan ni'n defnyddio bwyd lleol pan dan ni'n medru. Dan ni'n coginio bwyd blasus o Gymru a phitsas, achos mae un o'r staff yn dŵad o'r Eidal! Mae o'n hapus yma yng Nghymru ond mae'n bell i fynd i weld y teulu. Mae bwydlen y Llew Llwyd yn Gymraeg a Saesneg wrth gwrs, ac mae 'na dipyn bach o Eidaleg hefyd.

Mi fasai Ceri, y bos, yn hoffi ennill seren Michelin yn y Llew Llwyd, a chael rhaglen goginio ar S4C. Tasai hi'n cael seren Michelin a rhaglen deledu, mi fasai hi'n medru agor y Llew Llwyd fel gwesty bach hefyd. Sgynni hi ddim digon o bres i wneud hynny eto, ond mae'n braf cael breuddwyd! Mae pob bwrdd yn y tŷ bwyta'n llawn yn y Llew Llwyd am y pythefnos nesaf. Ella bydd hi'n medru agor tŷ bwyta arall cyn bo hir – y Llew Llwyd yn Llandudno a'r llall yn Llanilltid.

Newidiwch y paragraff cynta i sôn am Llinos/Llion – Dyma Llinos/Llion. Mae hi'n/o'n gweithio yn... Brawddeg bob yn ail!

Siaradwch:

- Be sy'n arbennig am y Llew Llwyd?
- Taset ti'n prynu tafarn neu dŷ bwyta, be faset ti'n wneud yno?
- Oes gen ti hoff dŷ bwyta?
- Lle est ti i fwyta allan ddiwetha?

Y llall / Y lleill

Mae un cyfrifiadur yn y tŷ ac mae'r llall yn y gwaith.

Mae un brawd yn yr ysgol ac mae'r llall yn y coleg.

Mae un rhaglen newyddion am naw o'r gloch ac mae'r llall am ddeg.

Mae un dosbarth yn y bore ac mae'r llall yn y prynhawn.

Mae rhai ffrindiau'n byw ym Mhwlleli ac mae'r lleill yn byw yn LlafairPG.

Mae rhai llyfrau yn y swyddfa ac mae'r lleill yn y tŷ.

Mae rhai dosbarthiadau ar-lein ac mae'r lleill yn y coleg.

Mae rhai ffrindiau'n chwarae rygbi ac mae'r lleill yn chwarae hoci.



Efo'ch partner, ysgrifennwch o leia 10 gair am y thema 'Yr ardal'.

Yr ardal

- Pryd symudest ti i'r ardal yma?
- Be sy yn yr ardal? Oes 'na siop/theatr/ganolfan hamdden/bwll nofio/sinema/orsaf drenau yn yr ardal?
- Be faset ti'n hoffi ei weld yn yr ardal sy ddim yma ar hyn o bryd?
- Lle wyt ti'n hoffi mynd allan yn yr ardal?
- Lle wyt ti'n hoffi mynd am dro yn yr ardal?
- Deuda rywbeth am dy hoff le di yn yr ardal.
- Be fyddi di'n ei wneud nesa yn yr ardal?



Gwyllo a gwrando

Gŵyl i ddathlu'r iaith Gymraeg, cerddoriaeth, celf a phethau Cymreig eraill ydy Tafwyl. Fel arfer, mae'n digwydd bob blwyddyn, yng Nghaerdydd.

1. Gwylwch y fideo byr yma o uchafbwyntiau (*highlights*) Tafwyl.
[Tafwyl - DIOLCH//THANK YOU TAFWYL 2022! | Facebook](#) Deudwch un peth am y fideo.
2. Siaradwch am un neu ddau o'r lluniau yma. Be sy yn y llun? Be sy'n digwydd? Sut mae'r bobol yn teimlo? Be fydd yn digwydd nesaf?



Gyda diolch i ffotoNant am y lluniau ac i Tafwyl, Menter Caerdydd, am y fideo.

3. Gwylwch y fideo eto ond y tro yma mae sgript hefyd. Atebwch y cwestiynau.
[Tafwyl - DIOLCH//THANK YOU TAFWYL 2022! | Facebook](#)

- i) Lle mae Tafwyl, fel arfer?
- ii) Pa fath o gerddoriaeth sy yn Tafwyl, er enghraifft?
 - a).....
 - b).....
 - c).....
- iii) Be fasech chi'n medru wneud yn Mhabell Llais?
- iv) Pa fwydydd weloch chi?
- v) Be dach chi ddim yn cael wneud yn Tafwyl?
- vi) Tasech chi'n mynd i Tafwyl, be fasech chi'n hoffi wneud?

Sgwrs – Ar y bws



- Gyrrwr bws: Bore da. Croeso i'r bws. Mae'n braf heddiw, tydy?
- Teithiwr: Ydy, wir. Ga i ddwâd ar y bws o ganol Casnewydd i Gastell Caerdydd, os gwelwch yn dda? Dw i isio mynd i Tafwyl yn y castell heddiw.
- Gyrrwr bws: Cewch, wrth gwrs. Mae'n cymryd awr a deg munud.
- Teithiwr: Gwych. Pryd mae'r bws yn dâd yn ôl i Casnewydd?
- Gyrrwr bws: Mae bws am bedwar ac un arall am hanner awr wedi pedwar.
- Teithiwr: Pryd mae'r bws olaf? Mi faswn i'n hoffi clywed Sŵnami yn canu am naw o'r gloch ar y prif lwyfan.
- Gyrrwr bws: Mae'r bws olaf yn gadael am ddeg o'r gloch.
- Teithiwr: Perffaith! Tocyn i'r castell 'te, plis.
- Gyrrwr bws: Dyma chi. Mwynhewch Tafwyl. Dw i'n mynd yfory ar ôl fy shiftt ar y bws!

Rŵan, defnyddiwch yr amserlen i wneud deialogau newydd.

Bysys Caerdydd					
Casnewydd	10:30	11:00	Castell Caerdydd	16:00	16:30
Maesglas	10:45	11:15	Llanrhymni	16:20	16:45
Tŷ Tredegar	10:50	11:20	Cas-bach	16:35	16:50
Cas-bach	11:05	11:35	Tŷ Tredegar	16:50	17:05
Llanrhymni	11:20	11:50	Maesglas	16:55	17:20
Castell Caerdydd	11:40	12:10	Casnewydd	17:10	17:40

Siaradwch

- Lle dach chi'n hoffi mynd yng Nghaernarfon, Y Rhyl neu Wrecsam? Be dach chi'n hoffi wneud 'na?
- Oeddech chi'n teithio ar fws pan oeddech chi'n blentyn? Lle oeddech chi'n mynd?

Gwyllo a gwrando



Gwylwch y fideo o [VRi](#) a [Beth Celyn](#) yn canu'r gân 'Ar Lan y Môr'.

[Ar Lan y Môr - Last Night of the Proms, Tenby - YouTube](#)

Mae hi'n gân enwog.

1. Peidiwch ag edrych ar y geiriau. Faint o weithiau dach chi'n clywed 'ar lan y môr'?
2. Llenwch y bylchau i ymarfer berfau a'r treigladau.
3. Gwiriwch eich gwaith a mwynhewch y gân.

Ar lan y môr mae rhosys cochion,
Ar lan y môr mae lilis gwynion,
Ar lan y môr mae '.....' inne
Yn 'r nos a 'r bore.

Ar lan y môr mae carreg wastad
Lle bûm yn gair â'm cariad,
O amgylch hon fe dyf y lili
Ac ambell gangen o rosmari.

Ar lan y môr mae cerrig gleision,
Ar lan y môr mae blodau'r meibion,
Ar lan y môr mae pob rhinwedde,
Ar lan y môr mae '.....' inne.

Rŵan, gwrandewch ar ychydig o'r ddwy fersiwn yma o 'Ar lan y môr' hefyd. Pa un ydy eich hoff fersiwn? VRi, Elin Fflur neu Adwaith? Pam?

[Elin Fflur. Ar Lan y Mor live. Jason Huxley Guitar - YouTube](#)

[Adwaith - Lan Y Mor \(Green Man Festival | Sessions\) - YouTube](#)

Be am gael pôl i weld pa un ydy hoff fersiwn y dosbarth?



a) Atebwch:

O le mae Cara'n dŵad yn wreiddiol?

Pwy sy'n dŵad i aros efo hi?

Be dach chi'n medru ei wneud yn y parc?

b) Gwrandewch am:

Mae'r olygfa'n fendigedig. *The view is marvellous.*

Be tasai hi'n bwrw glaw? *What if it rained?*

Dydy hi byth yn bwrw glaw. *It never rains.*

c) Cyfieithwch:

Who is coming to stay?

He is eleven years old.

Does your brother like climbing?



1. Dach chi rŵan wedi dysgu pob person yn y gorffennol cryno (*concise past*). Cofiwch, dach chi'n medru defnyddio gwneud hefyd:

Mi weles i.	Mi wnes i weld.
Mi welest ti.	Mi wnest ti weld.
Mi welodd o.	Mi wnaeth o weld.
Mi welodd hi.	Mi wnaeth hi weld.
Mi welon ni.	Mi wnaethon ni weld.
Mi weloch chi.	Mi wnaethoch chi weld.
Mi welon nhw.	Mi wnaethon nhw weld.

2. Y llall – Dach chi wedi dysgu **arall/eraill** yn barod:

y siop **arall** – the other shop

y siopau **eraill** – the other shops

Dysgwch rŵan:

y **llall** – the other (one)

y **lleill** – the others (the other ones)

Dw i wedi prynu'r llyfr yma, ond dw i ddim wedi prynu'r **llall**.

Dw i'n hoffi'r llyfrau yma, ond dw i ddim yn hoffi'r **lleill**.

Mae un chwaer yn byw yng Nghaerdydd, ac mae'r **llall** yn byw yng Nghaernarfon.

Dw i'n medru gweld rhai o'r tîm, ond lle mae'r **lleill**?